# RHEOLAETH DRWY ORFODAETH:

# **CANLLAWIAU I YMARFERWYR**

–

## **NODAU'R** DDOGFEN HON

Nod y ddogfen hon yw amlygu peryglon go iawn rheolaeth drwy orfodaeth i ymarferwyr ledled Gwent. Ei bwriad yw tynnu sylw at y rheoliadau, y deddfwriaethau a'r amddiffyniadau sydd ar waith mewn perthynas â rheolaeth drwy orfodaeth a'r hyn y gallwn ei wneud i ymateb a dysgu mwy.

VAWDASV
Gwent Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
Trais Yn Erbyn Menywod, Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

CRËWYD: EBRILL 2021

—

## **CYNNWYS** MAE'R DDOGFEN HON YN YMDRIN Â'R MEYSYDD CANLYNOL**:**

**BETH YW** RHEOLAETH DRWY ORFODAETH?

**BETH YW PERYGLON** RHEOLAETH DRWY ORFODAETH?

**AR BWY** Y MAE RHEOLAETH DRWY ORFODAETH YN EFFEITHIO**?**

**BETH YW'R GYFRAITH** YNGLŶN Â RHEOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

**BETH ELLID EI WNEUD I YMATEB** I'R RHAI SY'N DESTUN RHEOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

**BETH YW'R CAMAU NESAF** I HELPU A CHEFNOGI'R RHAI SY'N DESTUN RHEOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

**ADNODDAU AC YMGYRCHOEDD** YCHWANEGOL

****noder na fydd rhai dolenni'n agor mewn rhai fersiynau o Internet Explorer, ond bydd y cyfan yn agor drwy Google Chrome, Edge neu Firefox***

—

## **BETH YW** RHEOLAETH DRWY ORFODAETH?

Gall ymddygiadau rheolaethol gael eu portreadu fel gweithredoedd gofalgar gyda'r rheolaeth yn cael ei chyflwyno fel modd o amddiffyn neu ddangos cariad at rywun. Ond y gwrthwyneb ydyw mewn gwirionedd. Mae'n sail i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) gyda'r nod o ddominyddu a dal grym dros rywun arall.

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn weithred neu batrwm o weithredoedd fel ymosod, bygwth, cywilyddio a chodi ofn neu fath arall o gam-drin sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.

Mae ymddygiad rheolaethol wedi'i ddylunio i wneud rhywun yn ddibynnol drwy ynysu'r unigolyn o ffynonellau o gymorth, ei ecsbloetio, ei amddifadu o annibyniaeth a rheoli ei ymddygiad bob dydd.

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn creu cadwyni anweledig ac ymdeimlad o ofn sy'n treiddio i bob elfen o fywyd y dioddefwr. Mae'n gweithio i gyfyngu ar ei hawliau dynol drwy ei amddifadu o'i ryddid a chyfyngu ar ei allu i weithredu. Mae arbenigwyr fel Evan Stark yn cymharu rheolaeth drwy orfodaeth â chael eich dal yn wystl. Fel y dywed:

> *"Daw'r dioddefwr yn gaeth mewn byd afreal sy'n cael ei greu gan y camdriniwr, a'i ddal mewn byd o ddryswch, gwrthddweud ac ofn."*[i1]

—

## **BETH YW PERYGLON** RHEOLAETH DRWY ORFODAETH?

Mae unrhyw ymddygiad sy'n ceisio cyfyngu ar ryddidau person arall/pobl eraill yn cyfleu'r angen am rym neu reolaeth dros y person hwnnw. Mae'r angen hwn am rym a rheolaeth yn aml yn arwain at ymddygiad sy'n mynd yn fwyfwy peryglus a threisgar.

Dengys ymchwil gan Campbell et al., 2003; Dobash & Dobash, 2015; Myhill, 2015; Stark, 2007 dros y degawd diwethaf bod yna dystiolaeth bod achosion sy'n ymwneud â "rheolaeth drwy orfodaeth" yn fwy tebygol o arwain at niwed difrifol, gan gynnwys lladdiadau domestig, nag achosion sy'n cynnwys gweithredoedd o drais corfforol ar wahân[2]

Oherwydd y risgiau hyn, mae'n bwysig bod unrhyw newid mewn ymddygiad pan fydd rhywun arall yn bresennol, neu unrhyw newid mewn ymddygiad oherwydd dylanwad rhywun arall, yn cael ei ystyried o ddifrif ac yr ymatebir i hynny'n gyson.

—

## **AR BWY** Y MAE RHEOLAETH DRWY ORFODAETH YN EFFEITHIO**?**

Yn syml, gall rheolaeth drwy orfodaeth effeithio ar unrhyw un. Gwyddom y gall effeithio ar bob grŵp oedran ac ar ddynion yn ogystal â menywod. Mae hefyd yn bwysig nodi'r effaith sylweddol y mae byw gyda rheolaeth drwy orfodaeth yn ei chael ar blant a phobl ifanc. (Gweler yr adnoddau

---

[1] Gwefan Women's Aid https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/coercive-control/

[2] https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/0886260516675464#:~:text=There%20is%20evidence%20that%20cases,2015%3B%20Stark%2C%202007).

ychwanegol). Serch hynny, yn yr un modd â nifer o ffurfiau eraill o drais, gwyddom fod hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod.

Cafodd 24,856 achos o reolaeth drwy orfodaeth ei gofnodi gan heddlu yng Nghymru a Lloegr (heb gynnwys Heddlu Canol Manceinion (GMP)) yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Mae hyn yn gynnydd o'r 16,679 (heb gynnwys GMP) a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Am fwy o wybodaeth am y drosedd o reoli drwy orfodaeth a'r canlyniadau cyfiawnder troseddol am y drosedd, gweler Canlyniadau erlyn ac euogfarn.[3]

Gwyddom yng Ngwent fod yr achosion o laddiadau domestig yn datgelu i ni natur dreiddiol ac anodd ei nodi rheolaeth drwy orfodaeth. Dyma enghraifft o Adolygiad diweddar o Arfer Domestig ymysg Oedolion yng Ngwent;

> Roedd Ann yn byw gyda'i Phartner (Oedolyn B) yn y gymuned. Roedd Ann wedi derbyn gwasanaethau cymorth yn flaenorol gan Dimoedd Anabledd Dysgu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd. Daeth y Gwasanaethau Cymorth i ben ar gais Ann ar ôl symud i fyw gydag Oedolyn B.
>
> Cyflwynwyd sawl adroddiad diogelu mewn perthynas ag Ann yn codi pryderon ynghylch ymddygiad ymosodol a rheolaethol Oedolyn B. Roedd Oedolyn B yn ymddwyn yn rhwystrol ac ystrywgar. Roedd o hyd yn siarad ar ran Ann ac yn atal ymarferwyr rhag siarad â hi, a phan roeddynt yn cael siarad â hi, yn anaml iawn roedd hi ar ei phen ei hun. Roedd y diffyg mynediad hwn at Ann yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ymarferwyr asesu ei sefyllfa, anghenion a dymuniadau. Roedd Ann wedi cytuno y gallai Oedolyn B gysylltu â'r feddygfa ar ei rhan ac i'r holl gyswllt arall gan ymarferwyr eraill ddigwydd trwyddo ef.
>
> Roedd Oedolyn B ar adegau'n wrthwynebus ar lafar, yn dychryn staff o bob asiantaeth ac yn ymddwyn yn ymosodol tuag atynt. Roedd wedi bygwth ymarferwyr â chwynion hefyd ar sawl achlysur. Gwnaeth fygythiadau uniongyrchol i Weithwyr Cymdeithasol ond ni chafwyd trais corfforol.
>
> Ar sawl achlysur, ysgrifennwyd at Ann gan nad oedd modd cysylltu â hi, ond gan na chafwyd ymateb, ystyriwyd ei bod yn gwrthod cymorth. Fodd bynnag, ar adegau roedd Oedolyn B yn mynnu bod pob math o gyfathrebiad ag Ann yn mynd trwyddo ef, a nodwyd ar ôl hynny ei fod yn rheoli'r holl bost yn y tŷ. Mae amheuaeth hefyd p'un a fyddai Ann wedi gallu deall yr ohebiaeth ysgrifenedig oherwydd ei hanabledd dysgu. Roedd Oedolyn B hefyd yn cuddio llythyrau, felly ni welodd Ann y rhain erioed.
>
> Ar yr adegau y siaradwyd ag Ann, barnwyd bod ganddi'r galluedd i ddewis byw gydag Oedolyn B a gwrthododd ymyrraeth.
>
> Ar ddechrau eu perthynas, byddai Ann yn ymweld â'i theulu gydag Oedolyn B. Dros amser, dywedodd ei theulu bod y cyswllt wedi dod yn fwy prin cyn i'r ymweliadau ddod i ben yn gyfan gwbl. Parhaodd merch Ann i ymweld â hi, ond roedd Oedolyn B yn ei gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus, yn ei dilyn hi ac yn atal Ann rhag gadael yr eiddo. Arweiniodd y patrwm ymddygiad hwn at alwadau

---

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuseandthecriminaljusticesystemenglandandwales/november2020.

ffôn achlysurol yn unig rhwng Ann a'i merch, ac ar adeg cael ei derbyn i'r ysbyty, doedd Ann heb weld ei merch ers 4 blynedd.

Ar ôl blynyddoedd lawer mewn perthynas ag Oedolyn B, ac o ganlyniad i bryder diogelu, cynhaliwyd ymweliad ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd Oedolyn B yn ymosodol iawn tuag at staff yr Awdurdod Lleol a dim ond Swyddog yr Heddlu oedd yn cael mynd i mewn i'r eiddo. Cyfarfu'r Swyddog Heddlu ag Ann am gyfnod byr cyn i Oedolyn B ddechrau cynhyrfu a mynd yn ymosodol, gan fynnu bod Swyddog yr Heddlu'n gadael yr eiddo. Ar ôl hyn, trafodwyd mesurau diogelu pellach a chafwyd mynediad yn dilyn hynny o dan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Ymwelodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu â'r eiddo. Roedd modd i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol siarad ag Ann ac asesu ei llesiant a'i dymuniadau. Yn dilyn ymweliad gan ei meddyg teulu, yn hwyrach y diwrnod hwnnw, cytunodd i gael ei derbyn i'r ysbyty. Arhosodd Ann yn yr ysbyty o'r dyddiad y cyflwynwyd y APSO tan iddi farw yn ddiweddarach y mis hwnnw.

## **BETH YW'R GYFRAITH AR** REOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

Yn wahanol i droseddau ymosodol eraill, mae rheolaeth drwy orfodaeth yn canolbwyntio ar effaith gronnol ymddygiadau gorfodol a rheolaethol, gan ganolbwyntio ar gamdriniaeth reolaidd, barhaus a lefel isel.  Gall hyn wneud i rywun deimlo'n ofnus, pryderus a dan straen yn barhaus.

Adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 - Ymddygiad Rheolaethol neu Orfodol mewn Perthynas Rywiol neu Deuluol.  Creodd Adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 drosedd newydd o ymddygiad rheolaethol neu orfodol mewn perthynas rywiol neu deuluol. Cyn cyflwyno'r drosedd hon, nododd cyfraith achos yr anhawster wrth brofi patrwm ymddygiad sy'n arwain at aflonyddu o fewn perthynas rywiol (mae'r canllaw statudol yn dyfynnu'r achosion canlynol - Curtis [2010] EWCA Crim 123 a Widdows [2011] EWCA Crim 1500).

Drwy gyflwyno Deddf Cam-drin Domestig 2021 (DU) bydd newidiadau pwyslais bellach yn dod i rym ac yn benodol, mae'r Ddeddf newydd yn cefnogi'r farn y gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf. Mae'r diffiniad cyfreithiol bellach yn ymgorffori ystod o gamdriniaethau y tu hwnt i drais corfforol, gan gynnwys cam-drin emosiynol, ymddygiad gorfodol neu reolaethol a cham-drin economaidd. Gall y cam-drin fod yn ymddygiad sy'n ymwneud ag un digwyddiad ar ei ben ei hun neu gwrs ymddygiad.

Mae'r ddeddf yn ymestyn y drosedd o ymddygiad gorfodol a rheolaethol, ac nid yw bellach yn ofyniad i gamdrinwyr a dioddefwyr naill ai fod mewn perthynas o hyd neu barhau i fyw gyda'i gilydd. Mae ymchwil sylweddol sy'n dangos y gall y rhai sy'n gadael cynbartneriaid oedd yn eu cam-drin yn aml wynebu ymddygiad rheolaethol neu orfodol parhaus neu gynyddol ar ôl gwahanu. O ganlyniad, gwyddom fod dioddefwyr mewn risg uwch o ddynladdiad yn y cyfnod yn syth ar ôl gwahanu.

Bydd canllawiau pellach sy'n cefnogi'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn cael eu cyhoeddi maes o law a bydd unrhyw adolygiad o'r ddogfen hon yn ystyried hynny.

—

## **BETH ELLID EI WNEUD I YMATEB** I'R RHAI SY'N DESTUN RHEOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

Rhaid i'r ymateb i reolaeth drwy orfodaeth fod mor eang ac amrywiol â'r cam-drin ei hun. Mae angen i'r holl wasanaethau, partneriaid ac asiantaethau gael ymateb cyson ac amserol i unrhyw bryderon.

Mae angen ymwybyddiaeth o fewn yr holl sectorau a'r cyhoedd er mwyn i nodweddion ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â rheolaeth drwy orfodaeth fod yn hysbys a chael eu cydnabod yn eang. Mae angen gwneud hyn drwy hyfforddiant, lledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Gweler yr adran ganlynol am ragor o fanylion.

—

## **BETH YW'R CAMAU NESAF** I HELPU A CHEFNOGI'R RHAI SY'N DESTUN RHEOLAETH DRWY ORFODAETH**?**

TYSTIOLAETH A NODIADAU

Mae nodiadau a thystiolaeth yn allweddol pan ac os bydd achos o reolaeth drwy orfodaeth yn mynd drwy achosion cyfreithiol. Mae'n hollbwysig cadw nodiadau hyd yn oed os nad yw'r cleient am ddwyn achos cyfreithiol ar yr adeg honno, oherwydd gallai ddymuno wneud hynny yn y dyfodol. Gallwch gynorthwyo gyda hyn fel gweithiwr proffesiynol drwy gadw eich cofnod eich hun o ddigwyddiadau ac annog eich cleient i wneud yr un fath, yn ddiogel. Gellir dod o hyd i restr o dystiolaeth ddefnyddiol yma o dan adran 5 https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/controlling-or-coercive-behaviour-intimate-or-family-relationship .

Os ydych chi'n gweithio gyda chleient sy'n cyflawni rheolaeth drwy orfodaeth, mae hefyd yn allweddol eich bod yn ystyried y canllawiau o dan adran 7 hefyd. https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/controlling-or-coercive-behaviour-intimate-or-family-relationship Mae hi hefyd yn allweddol cofio bod gwasanaethau penodol ar gael i gyflawnwyr sy'n cynnig cefnogaeth a help wrth fyfyrio ar eu hymddygiad eu hunain.

HYFFORDDIANT

Mae'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â rheolaeth drwy orfodaeth yn eang ac amrywiol. Byddem bob amser yn argymell cyrchu hyfforddiant ychwanegol i wella eich ymwybyddiaeth a'ch gwybodaeth ac er mwyn cael yr offer ychwanegol i adnabod rheolaeth drwy orfodaeth a sut i ymateb yn effeithiol.

Mae deall Cam-drin Domestig a Rheolaeth drwy Orfodaeth yn fan cychwyn gwych i'ch dysgu ar y pwnc hwn. Bydd hyfforddiant ar ddeall Cyflawnwyr hefyd yn eich galluogi i ddysgu am batrymau ac ymddygiadau cyflawnwyr i'ch helpu i nodi ymddygiadau pryderus yn gynnar. Yn ogystal â'r rhain, os ydych chi mewn rôl reng flaen lle rydych chi'n gweithio'n uniongyrchol â phobl a allai fod yn ddioddefwyr neu gyflawnwyr o unrhyw ffurf ar VAWDASV, yna bydd yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 hefyd yn eich helpu i wybod sut i holi cwestiynau sensitif ac uniongyrchol ynghylch VAWDASV ac ymateb yn effeithiol i unrhyw ddatgeliadau.

**Fel gofyniad sylfaenol, byddem yn argymell eich bod yn gwneud yr hyfforddiant canlynol i wella eich ymwybyddiaeth a'ch dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth.**

- Deall Cam-drin Domestig a Rheolaeth drwy Orfodaeth
- Deall Risg a MARAC
- Gofyn a Gweithredu Grŵp 2

Gellir dod o hyd i ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi drwy fynd i'r wefan ganlynol; Cyrsiau - Gwent Safeguarding

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Wrth weithio gydag unrhyw un sy'n profi Rheolaeth drwy Orfodaeth, mae'n bwysig cofio nad oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr, ond gwybod bod arbenigwyr yn y maes hwn a all helpu i'ch cefnogi chi a'ch cleient i gael yr ystod eang o gymorth y gallai fod ei angen.

Dilynwch y ddolen ganlynol i weld cyfeiriadur eang o wasanaethau: Gwasanaethau Cymorth - Gwent Safeguarding

## **ADNODDAU AC YMGYRCHOEDD** YCHWANEGOL

*RHYBUDD - cyn gwylio'r fideos a'r adnoddau hyn, efallai y bydd cynnwys a allai fod yn sbardun i rai felly cymerwch ofal wrth eu gwylio neu eu rhannu.*

- Mae'r fideo hwn gan Women's Aid yr Alban hefyd yn rhoi trosolwg defnyddiol. https://youtu.be/36mQFefBylM

- Yn y fideo hwn, mae'r Athro Evan Stark, gweithiwr cymdeithasol fforensig ac awdur 'Coercive Control' yn sôn wrth Women's Aid Cymru am sut mae wedi darganfod bod ymddygiad rheolaethol yn effeithio ar blant a phobl ifanc https://youtu.be/kvHbVzTzpX0

- Roedd Leslie Morgan Steiner mewn "cariad dwl" -- hynny yw, mewn cariad â dyn oedd yn ei cham-drin ac yn bygwth ei bywyd yn rheolaidd. https://www.ted.com/talks/leslie_morgan_steiner_why_domestic_violence_victims_don_t_leave?utm_campaign=tedspread&utm_medium=referral&utm_source=tedcomshare

- Yr hyn y mae angen i Weithwyr Cymdeithasol ei wybod am Reolaeth drwy Orfodaeth What Social Worker Need to Know About Coercive Control - YouTube

- Ymgyrch 'Nid Cariad yw Hyn, Rheolaeth yw Hyn' Llywodraeth Cymru. Rheolaeth yw hyn | LLYW.CYMRU